# CYNGOR BRO MORGANNWG
## CANLLAW I HEBRYNGWYR

- Pa sgiliau mae eu hangen arnaf i?
- Sut a ble rydw i'n cofrestru?
- Beth yw fy nghyfrifoldebau?
- Pa rannau o'r rheoliadau y mae'n rhaid i mi eu gwybod?
- Beth yw cyfrifoldebau deiliad y drwydded?

Diben y canllaw byr hwn yw ateb ambell gwestiwn sylfaenol, ond bydd adegau pan fo angen eglurder a manylder pellach, yn enwedig o ran y rheoliadau, ac ar gyfer hyn dylech gysylltu naill ai: â'ch awdurdod trwyddedu hebryngwyr (Bro Morgannwg), Awdurdod Trwyddedu'r plentyn ei hun neu'r Awdurdod Trwyddedu lle mae perfformiad yn digwydd.

### SGILIAU HEBRWNG AC AMDDIFFYN PLANT

Noda'r gyfraith fod y hebryngwr yn gweithredu ***in loco parentis*** ac y dylai arfer y gofal ***"y gellid disgwyl yn rhesymol y byddai rhiant da yn ei roi i'r plentyn hwnnw".***

- Bydd y plentyn yn gweithio mewn **amgylchedd 'oedolion'** a bydd angen i chi allu sicrhau ei fod yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddo, gan ystyried ei oedran a'i brofiad.

- Mae angen i chi hefyd fod yn ymwybodol o, ac ystyried, gyfnod canolbwyntio plentyn, i ba raddau mae'n clywed sgyrsiau oedolion, disgwyliadau, pwysau gan gyfoedion a pherthnasau ag oedolion eraill yn y cynhyrchiad.

- **I**echyd a diogelwch ar y llwyfan neu ar set h.y. y Polisi Ysmygu, offer trydanol megis: gwifrau, offer sain a chamerâu a all i gyd fod yn beryglus iawn. Ni ddylid caniatáu i blant 'chwarae'n wirion' pan nad ydynt yn gweithredu oherwydd y potensial ar gyfer damweiniau.

- **Ysgol.** Efallai nad yw'r plentyn 'yn yr ysgol' ond nid yw hynny'n golygu bod yr oriau y caiff ei diwtora yn llai pwysig nag oriau yn yr ysgol (mae angen cael 3 awr o diwtora ar ddiwrnod ysgol oni bai ei fod wedi'i esgusodi gan yr ysgol lle mae ar y gofrestr).

- **Cyfathrebu.** Mae angen i chi allu synhwyro pryd bydd y plentyn yn sâl, wedi blino neu'n teimlo'n emosiynol. Peidiwch â diystyru plentyn er mwyn bodloni amserlen y cynhyrchiad. Cofiwch, nid 'oedolion bach' yw plant. Gall yn aml fod yn anodd i blant gyfleu eu teimladau mewn ffordd y mae oedolion yn eu deall, felly, **chi fydd y cyfryngwr** rhyngddyn nhw a'r cwmni cynhyrchu.

- Gall **cyfnod canolbwyntio plant** fod yn llawer byrrach nag un oedolion. Felly mae angen y sgiliau arnoch i'w difyrru neu eu galluogi i ddifyrru eu hunain pan na fyddant yn perfformio / gyda thiwtor. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ffilmio a phan fyddant ar leoliad gan y bydd llawer o 'amser segur'. Efallai y bydd angen i chi drefnu / darparu gemau neu efallai y bydd angen i'r plentyn orffwys a darllen llyfr addas yn dawel. Dewch â gweithgareddau.

- Bydd angen **sgiliau gwahanol** wrth hebrwng mewn theatr yn hytrach nag ar set ffilm neu ar leoliad. Mae llawer mwy o 'amser aros' wrth ffilmio a gall y tywydd arwain at y plentyn yn sownd mewn carafán am gyfnodau eithaf hir – cofiwch fod eu lefelau egni yn llawer uwch nag oedolion ac efallai y bydd angen mwy o sylw unigol ar blant.

- **Bwlio –** rhaid i chi fod yn ymwybodol o fwlio bob amser gan y gall fod yn gynnil iawn. Gall fod yn hawdd gweld ymladd corfforol neu gic slei ond nid yw bob amser mor hawdd gweld geiriau neu jôcs a gyfeirir at un plentyn penodol. Dylai'r math hwn o ymddygiad gael ei atal ar unwaith neu gallai effeithio ar y plentyn a'r cynhyrchiad.

- **Amddiffyn Plant.**Dylai fod gan y Cwmni Cynhyrchu **'Bolisi Amddiffyn Plant'** a **'Pherson Cyswllt Enwebedig'** gyda phrofiad amddiffyn plant neu sydd wedi ei hyfforddi fel pwynt cyfeirio ar gyfer staff a hebryngwyr. Mae angen i chi wybod pwy ydyn nhw felly gwnewch yn siŵr y cewch wybod.

- **Ymarfer Diogel.** Dylai'r holl staff cynhyrchu, actorion, cast, criw a hebryngwyr (gan gynnwys gwisgwyr a cholur) fod yn ymwybodol o'u hymddygiad o amgylch plant. Dylid osgoi unrhyw gyswllt corfforol diangen gan y gallai'r plentyn ei hun, neu gall eraill, ei gam-ddehongli. Byddwch yn synhwyrol, peidiwch â gadael plentyn ar ei ben ei hun gydag oedolion eraill na rhoi eich hun mewn sefyllfa fregus.

- **Adrodd.** Dylid adrodd unrhyw **ymddygiad neu sylwadau anarferol neu annymunol** gan blentyn ynghylch aelod o'r cynhyrchiad sy'n oedolyn neu gyfoed wrth uwch aelod o'r Cwmni Cynhyrchu (neu’r **Person Cyswllt Enwebedig**) a, lle y bo'n briodol, dylid atgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr Awdurdod Lleol lle mae'r cynhyrchiad yn digwydd. Mewn sefyllfaoedd difrifol, lle mae cyswllt yn anodd, ffoniwch yr Heddlu. Mae ganddynt swyddogion dynodedig i ddelio â sefyllfaoedd o'r fath.

- **Honiadau.** Os gwneir **honiad** yn erbyn aelod o'r cynhyrchiad, yr hebryngwr , y cast neu gynorthwyydd gwirfoddol, ceisir cydweithrediad llawn gan y rhai sy'n gyfrifol am y cynhyrchiad, yr aelod staff unigol a'r Awdurdod Trwyddedu. Yn achos honiadau difrifol, bydd angen atal yr aelod o staff ar unwaith hyd nes y daw'r ymchwiliad i ben. Efallai y bydd angen gwahardd y person y gwnaed yr honiad yn ei erbyn o'r theatr / ystafelloedd ymarfer / lleoliad / set ffilm ac ati neu o leiaf sicrhau na chaiff gysylltu heb oruchwyliaeth ag unrhyw blentyn yn ystod ymchwiliad.

- **Mwynhau.** Yn olaf, cofiwch y dylai perfformio fod yn brofiad hwyliog i'r plentyn ac i chi. Mae **sgiliau cyfathrebu a thrafod da,** gyda'r plentyn neu gyda'r amrywiaeth o oedolion sy'n ymwneud â'r cynhyrchiad, yn hanfodol.

## COFRESTRU FEL HEBRYNGWR

Rhaid gwneud cais am Drwydded Hebryngwr i'r Awdurdod Lleol yr ydych yn byw ynddo.

Mae ffurflenni cais ar gael ar gais gan CIEE@valeofglamorgan.gov.uk.

I ddod yn hebryngwr, bydd angen i chi:

1. Gwblhau ffurflen gais
2. Hyfforddi (h.y. bod wedi cwblhau'r hyfforddiant wyneb yn wyneb â Chaerdydd (maent yn cynnig rhaglen dreigl o ddyddiadau hyfforddi drwy gydol y flwyddyn).
3. Os gwnaethoch chi’r hyfforddiant o’r blaen ond mae hynny dros 3 blynedd yn ôl, mae angen i chi gwblhau'r cwrs gloywi ar-lein 'Hyfforddiant diogelu plant mewn adloniant ar gyfer hebryngwyr' a gynigir gan yr NSPCC (bydd yn rhaid i chi anfon copi o'r dystysgrif pan fyddwch wedi cwblhau’r cwrs).
4. Pasio gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gweithio gyda phlant (bydd yn rhaid i chi anfon copi o'r dystysgrif).
5. Darparu dau eirda yn cadarnhau eich addasrwydd ar gyfer y swydd hon.
6. Talu'r ffioedd cysylltiedig.
7. Hefyd bydd disgwyl i chi ddod i gyfweliad fel rhan o’r broses ymgeisio.

Ar ôl eu cyhoeddi, bydd trwydded a bathodyn adnabod yn ddilys am 3 blynedd neu hyd nes y daw eich hyfforddiant / tystysgrif GDG i ben os yw'r naill neu'r llall yn gynt nag ymhen 3 blynedd.

**Cadwch eich trwydded gyda chi bob amser wrth weithio. Efallai y bydd yn rhaid i chi brofi eich bod wedi'ch trwyddedu.**

# CYFRIFOLDEBAU

**Eich cyfrifoldeb PENNAF yw'r plentyn yn eich gofal. Tra byddwch chi'n hebryngwr, ni ddylech gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill. Cofiwch, rydych chi *in loco parentis* (ac eithrio pan fo'r plentyn yng ngofal tiwtor).**

Eich cyfrifoldeb chi, ynghyd â Deiliad y Drwydded, yw sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau (ac unrhyw ofynion / amodau ychwanegol a osodir ar y drwydded gan awdurdod trwyddedu'r plentyn neu awdurdod trwyddedu sy'n arolygu) bob amser. Mae'n bosibl y cewch eich hun dan bwysau gan y Cwmni Cynhyrchu i lacio'r rheoliadau oherwydd yr ail-drefnu ond mae'n rhaid i chi gofio mai **gofal y plentyn yw eich prif ddyletswydd.** Mae gwybodaeth dda am y rheoliadau, gwybod ble dylech fynd am gymorth a chyngor a sgiliau negodi cadarn, i gyd yn elfennau hanfodol o hebryngwr da.

Cofiwch, os nad yw pethau'n 'iawn' ac rydych yn gwrthwynebu, nid 'creu ffwdan' ydych chi. Rheswm a disgwyliad yr Awdurdod Trwyddedu dros gyflwyno trwydded hebryngwr yw i chi ofalu am y plentyn a'i amddiffyn. Efallai y byddwch yn ofni na fydd y 'cwmni' yn eich cyflogi eto os ydych yn gwrthwynebu rhywbeth, ond ni ddylai hynny gymryd blaenoriaeth dros eich prif gyfrifoldeb, sef y plentyn / plant yn eich gofal. Rhowch wybod i'ch Awdurdod Trwyddedu am unrhyw ddigwyddiadau er mwyn iddo allu gwneud gwaith dilynol gyda'r cwmni dan sylw. Byddwn yn eich cefnogi, ond mae angen i chi roi gwybod i ni beth sy'n digwydd yn y cynhyrchiad.

1. **Cyfleusterau.** Dylech fod gyda'r plentyn bob amser: ar y set / yn ardal y llwyfan, yn yr ystafelloedd gwisgo, yn ystod amser hamdden, prydau bwyd ac mewn mannau egwyl ac ati. **Chi** yw'r **person allweddol** y bydd y plentyn yn edrych ato am amddiffyniad, eglurhad a chefnogaeth **– chi** yw'r **allwedd** sy'n galluogi'r plentyn / plant i gael profiad perfformio hapus. Os yw'r cyfleusterau'n 'ddiffygiol' dylech chi negodi cyfleusterau gwell gyda'r cwmni cynhyrchu. Nid 'ategion' at gynhyrchiad yw plant - mae eu gofal yn hollbwysig bob amser. Gallwch gael cymorth ychwanegol gan: eich awdurdod trwyddedu, awdurdod trwyddedu'r plentyn neu'r awdurdod trwyddedu y mae'r perfformiad yn digwydd yn ei ardal. Paratowch a gwnewch yn siŵr bod y cysylltiadau ar gyfer pob un ar gael i chi cyn i chi gyrraedd ar gyfer dechrau'r contract.

2. **Cymarebau.** Dim ond am uchafswm o 12 o blant y gall hebryngwr fod yn gyfrifol (os yw'r hebryngwr hefyd yn athro preifat y plentyn dan sylw, caiff hyn ei leihau i 3). Bydd hyn yn cael ei leihau'n sylweddol gan yr awdurdod trwyddedu yn dibynnu ar oedrannau, rhyw neu anghenion arbennig y plant ac ati. Ffactorau eraill sy'n cael eu hystyried yw'r lleoliad a'r cyfleusterau megis ystafelloedd gwisgo ac amseroedd perfformio plant unigol ac ati. Er y bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried cymarebau priodol yn ystod y broses ymgeisio, dylai hebryngwr hefyd sicrhau ei fod yn credu bod y cymarebau hyn yn briodol cyn ymgysylltu.

3. **Teithio.** Efallai y bydd angen i blant deithio cryn bellter i gymryd rhan mewn perfformiad a dylai'r trefnwyr roi amser ar gyfer hynny wrth bennu'r amserlen ar gyfer pob diwrnod yn y perfformiad. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried amser teithio ac, os oes angen, yn nodi amseroedd dechrau a gorffen gwahanol i blentyn er mwyn caniatáu teithio fel un o amodau'r drwydded. Fodd bynnag, dylai hebryngwr fonitro hyn gan y gallai fod angen cytuno ar drefniadau ychwanegol os teimlir bod lles y plentyn yn cael ei beryglu dan y trefniadau presennol.

Felly, gan ystyried lles y plentyn, gall fod yn fwy synhwyrol i'r Cwmni Cynhyrchu drefnu diwrnodau perfformio pob plentyn mewn blociau fesul wythnos (yn hytrach nag ambell ddiwrnod yma ac acw drwy gydol wythnos) neu ddarparu llety yn nes at ble mae'r perfformiad yn digwydd yn hytrach na gorfod teithio oriau bob dydd neu bob yn ail ddiwrnod a mynd i'r ysgol yn y cyfamser. Cofiwch, gellir diwygio amserlenni os nad ydynt yn gweithio'n foddhaol. Os yw'r teithio'n dod yn broblem i'r plentyn, gallech godi hyn gyda'r cwmni cynhyrchu a chytuno ar lety mewn gwesty.

4. **Byw i ffwrdd o'r cartref.** Yr hebryngwr sy'n gyfrifol am y plentyn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod llety'r plentyn yn foddhaol ym mhob ffordd, a bod y plentyn yn cael gwneud gweithgareddau priodol yn ystod ei amser sbâr. Yn gyffredinol, efallai y bydd angen i chi oruchwylio'n fwy na phe bai'r plentyn yn byw gartref. Unwaith eto, os oes problemau yma na ellir eu datrys, cysylltwch ag awdurdod trwyddedu'r plentyn, neu'r Awdurdod Trwyddedu y mae'r perfformiad yn digwydd yn ei ardal.

5. **Salwch neu anaf** – ni ddylai'r plentyn berfformio ac yntau'n wael ar unrhyw adeg. Os aiff y plentyn yn sâl neu os caiff ei anafu tra mae yng ngofal yr Hebryngwr neu'r Tiwtor, rhaid cael cymorth meddygol a hysbysu'r rhiant / gwarcheidwad a'r Awdurdod Trwyddedu ar unwaith. Dylech gadw rhif cyswllt y rhieni gyda chi bob amser.

8. **Perfformiadau peryglus** - Rhaid awdurdodi'r rhain **cyn** rhoddir trwydded.

   Os credwch fod perfformiad yn beryglus ac nad yw wedi'i awdurdodi **STOPIWCH, MEDDYLIWCH AC YMGYNGHORWCH** â'r Cwmni Cynhyrchu a'i Swyddog Iechyd a Diogelwch. Os credwch fod yr hyn y mae disgwyl i'r plentyn ei wneud yn dal yn annerbyniol, **STOPIWCH** y perfformiad nes eich bod yn fodlon ei fod yn ddiogel. Efallai y byddai'n help siarad â'r Awdurdod Lleol y mae'r perfformiad yn digwydd yn ei ardal, yr Adran Iechyd yr Amgylchedd leol neu swyddog Iechyd a Diogelwch y cynhyrchiad. Bydd y Cwmni Cynhyrchu yn gwybod pwy yw'r bobl hyn a bydd ganddo eu rhifau cyswllt.

9. **Cofnodion.** Rhaid i'r Cwmni Cynhyrchu sicrhau bod y cofnodion gofynnol ar gael i swyddog yr Awdurdod Trwyddedu / Lleol sy'n ymweld eu harchwilio. Yn aml bydd y cwmni cynhyrchu yn rhoi'r cofnodion hyn i'r hebryngwr eu cadw mewn perthynas â'r plentyn.

   (Gweler Tabl B - Cofnodion y dylai deiliad y drwydded eu cadw).

# Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015

### Ymarferion

Mae Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963 A.37 yn berthnasol i berfformiadau, ond nid i ymarferion. Fodd bynnag, mae Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) 2015 yn effeithio ar ymarferion. Os cynhelir ymarferion yn ystod cyfnod trwydded (rhwng y diwrnod perfformio cyntaf a'r diwrnod perfformio diwethaf) maent yn destun i'r un cyfyngiadau ac amodau ag sy'n berthnasol i'r drwydded honno h.y. yr amser ym man y perfformiad, amseroedd perfformio, ac yn y blaen. Mae ymarferion hefyd yn cyfrif fel perfformiad wrth gyfrif hyd gweithio'r wythnos h.y. 6 diwrnod.

### Addysg

Rhaid i blant sy'n cael addysg breifat fel rhan o'u trwydded gael o leiaf yr isafswm addysgu (sy'n cyfateb i dair awr y dydd ar gyfer pob diwrnod ysgol arferol a fethir). Fodd bynnag, gellir cronni hyn dros bedair wythnos (neu gyfanswm cyfnod y drwydded os yw hynny'n llai na phedair wythnos) er mwyn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd o ddydd i ddydd, gyda lleiafswm o chwe awr mewn unrhyw wythnos ac uchafswm o bum awr mewn unrhyw un diwrnod.

E.e. 5 diwrnod yn perfformio: *3 awr x 5 diwrnod = 15 awr x 4 wythnos = angen 60 awr o diwtora dros gyfnod o bedair wythnos.*

**Tiwtoriaid**

1. Dim ond uchafswm o 5 plentyn o wahanol lefelau y gall tiwtor eu haddysgu ar yr un pryd.
2. Os yw'r plant ar yr un lefel, gallant addysgu hyd at 12.
3. Gall tiwtor, ysgol a rhieni, ar y cyd ag Awdurdod Trwyddedu'r plentyn (yn ôl *disgresiwn* yr Awdurdod Trwyddedu), fynnu y dylid addysgu llai o blant ar yr un pryd.
4. Dylai tiwtoriaid gysylltu'n agos ag ysgol y plentyn, yn enwedig lle mae absenoldebau hir o'r ysgol wedi'u trefnu, er mwyn sicrhau y glynir wrth y cwricwlwm er mwyn osgoi bod y plentyn yn syrthio ar ei hôl hi yn ei astudiaethau.

Cofiwch, mae addysg y plentyn yn bwysig a gall Awdurdod Trwyddedu'r plentyn roi amodau ar drwydded y plentyn er mwyn bodloni gofynion addysgol y plentyn.

**Disgresiwn yr Hebryngwr.** Os yw'r Hebryngwr yn fodlon bod newid mawr yn yr amserlen wedi arwain at ofyn i'r plentyn weithio y tu hwnt i'r amser penodedig ac mae’r Hebryngwr hefyd yn fodlon na fyddai lles y plentyn yn dioddef, gall yr Hebryngwr ganiatáu i'r plentyn barhau am 60 munud ychwanegol. Mae hyn ar yr amod nad yw cyfanswm y gwaith a wna’r plentyn y diwrnod hwnnw yn fwy na'r hyn a ganiateir ar gyfer plentyn o'i oedran (gweler Tabl B – Tabl Perfformiadau a Gweithgareddau). Pan awdurdodir unrhyw estyniad o'r fath rhaid i'r Cynhyrchydd / Hebryngwr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a'r Awdurdod Lleol y mae'r plentyn yn gweithio yn ei ardal, naill ai ar yr un diwrnod neu'r diwrnod canlynol.

**Gweithio yn y nos.** Er bod amser dechrau cynharaf ac amser gorffen diweddaraf (gweler Tabl B – Tabl Perfformiadau a Gweithgareddau) gellir caniatáu i blentyn weithio yn y nos (hynny yw, ar ôl amser gorffen hwyraf yr Awdurdod Trwyddedu a chyn yr amser dechrau cynharaf) os gofynnir i Awdurdod Trwyddedu'r plentyn. Gan fod lles y plentyn yn hollbwysig, mae gwaith o'r math yn destun cyfyngiadau. Mae unrhyw berfformio sy'n digwydd ar ôl hanner nos yn cyfrif fel rhan o'r amser perfformio a ganiateir y diwrnod cynt. Mae'n **RHAID** hefyd i’r plentyn gael seibiant o 16 awr o leiaf cyn iddo ddychwelyd i'r man perfformio ar ôl gwaith nos ac os yw'n gwneud gwaith nos ar **2 noson yn olynol, NI CHAIFF** wneud unrhyw waith nos eto am **O LEIAF** 7 diwrnod arall.

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

**Polisi Amddiffyn Plant.** Rhaid bod gan y Cwmni Cynhyrchu, fel y cyflogwr, Bolisi Amddiffyn Plant a Pherson Cyswllt Enwebedig gyda phrofiad amddiffyn plant neu sydd wedi cael hyfforddiant, fel pwynt cyfeirio ar gyfer Hebryngwyr, ac i’w helpu i wneud atgyfeiriad at yr adran gwasanaethau cymdeithasol berthnasol ar gyfer ardal y perfformiad.

**Arolygu.** Caiff swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Lleol y mae perfformiad yn digwydd yn ei ardal fynd i mewn, ar unrhyw adeg, i unrhyw fan lle y mae perfformiad, trwyddedig neu ddidrwydded, y mae *A.37* Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963 yn berthnasol iddo, a chaiff wneud ymholiadau am unrhyw blentyn y mae'n tybio sy’n cymryd rhan mewn perfformiad.

**Enillion.** Gall yr Awdurdod Trwyddedu ofyn am ba bynnag wybodaeth y mae'n teimlo sy'n briodol er mwyn penderfynu p’un ai a ddylid rhoi trwydded ai peidio. Gall Awdurdod Trwyddedu hefyd, yn benodol, wneud ymholiadau sy'n angenrheidiol yn ei farn ef er mwyn gallu penderfynu p’un ai a ddylid rhoi'r drwydded yn cynnwys amod y diogelir enillion y plentyn.

**Perfformiadau peryglus**. Ni chaniateir hyfforddi unrhyw berson o dan 12 oed i gymryd rhan mewn 'perfformiadau o natur beryglus'. Gellir hyfforddi person rhwng 12 ac 16 oed (plentyn o oedran ysgol gorfodol) i gymryd rhan mewn perfformiadau peryglus dan rai amgylchiadau. Dylid trafod unrhyw berfformiad y gellir ei ystyried yn beryglus gyda'r Awdurdod Trwyddedu cyn rhoi trwydded. Mae’n bosibl y bydd angen, neu y trefnir gwiriadau rhwng yr Awdurdod Trwyddedu a'r Awdurdod Lleol lle

mae'r perfformiad yn digwydd cyn cytuno y gallai perfformiad o'r math hwn fynd rhagddo. Gall hyn hefyd gynnwys arolygiadau gan Adrannau Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd a Diogelwch.

Gall yr Awdurdod Trwyddedu osod **amodau** ar drwydded y plentyn (amseroedd, gwaith nos, tiwtora ac ati) ynghyd â'r gofynion cyfreithiol dan y ddeddfwriaeth*.*

**Plant o'r tu allan i'r DU** sy'n gweithio yn y wlad hon. Dylid gwneud ceisiadau i'r awdurdod lleol lle mae'r ymgeisydd yn byw neu lle y mae ei fusnes (os nad oes safle yn y DU, yna gellir gwneud cais i'r Awdurdod Lleol lle mae'r perfformiad cyntaf yn digwydd) neu lle mae'r plentyn yn preswylio yn ystod cyfnod y perfformiad. Mae angen i bob plentyn o'r tu allan i'r DU gael trwydded i berfformio yn y DU.

Rhaid i **blant y DU sy'n perfformio dramor** gael trwydded i wneud hynny drwy'r Llys Ynadon.

**Perfformiadau Didrwydded**. Gall plentyn o unrhyw oedran gymryd rhan mewn perfformiadau didrwydded ar 4 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 6 mis, yn amodol ar gydymffurfio â'r oriau gwaith, amser gorffwys a'r prydau bwyd a nodir yn y Rheoliadau. **Nid yw'r** eithriad hwn **yn berthnasol** os oes angen unrhyw absenoldeb o'r ysgol i alluogi'r plentyn i gymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd, nac os yw'r plentyn yn cael taliad am y perfformiad.

## CYFRIFOLDEBAU DEILIAD Y DRWYDDED (YMGEISYDD)

Rhaid i'r person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu, cynhyrchu neu redeg y gweithgaredd neu'r perfformiad y bydd y plentyn yn ymwneud ag e wneud y cais. Rhaid gwneud y cais yn ysgrifenedig i'r awdurdod trwyddedu perthnasol o leiaf 21 diwrnod cyn bod angen y drwydded. Os rhoddir llai o rybudd, mae gan yr awdurdod hawl i wrthod rhoi trwydded ar y sail nad oes digon o amser i gyflawni'r cyfrifoldebau; mae'n **annhebygol iawn** y rhoddir trwydded os daw'r cais i law lai na phum diwrnod gwaith cyn y dyddiad y mae angen y drwydded. Os rhoddir y drwydded, bydd yr ymgeisydd yn gyfreithiol gyfrifol dros sicrhau bod yr holl amodau'n cael eu bodloni a bod y plentyn yn cael ei ddiogelu'n briodol.

Sylwch: Rhoddir copi o drwydded y plentyn i'r ymgeisydd, yr Awdurdod Trwyddedu y mae'r perfformiad neu'r gweithgaredd yn digwydd yn ei ardal a rhieni/gwarcheidwad cyfreithiol y plentyn.

- RHAID i gynyrchiadau sicrhau bod trwydded pob plentyn a chofnodion yr hebryngwr / tiwtor ar gael ym mhob safle perfformio pan fydd y plentyn yn gweithio. Ar ôl cwblhau'r cynhyrchiad, bydd y cofnodion hyn yn cael eu cadw gan Ddeiliad y Drwydded (ymgeisydd) am gyfnod o 6 mis o leiaf yn y cyfeiriad a roddwyd ar gais y drwydded (mae angen i hwn fod yn Brif Swyddfa ac NID cyfeiriad y lleoliad cynhyrchu) i'w harchwilio ar gais gan un o swyddogion yr Awdurdod Lleol yn ddiweddarach. **Gweler Tabl A - Cofnodion y dylai Deiliad y Drwydded eu cadw.**

- RHAID i gynyrchiadau sicrhau bod 'Asesiad Risg' Iechyd a Diogelwch wedi'i gynnal yn safle'r perfformiad gan gynnwys y polisi ysmygu (ar y set ac oddi arni); bod rheoliadau tân / tystysgrif diogelwch tân a bod swyddog cymorth cyntaf cyswllt. Dylai'r holl staff, yr hebryngwr a'r plant fod yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau gadael mewn argyfwng. Os nad ydych yn cael gwybod am y rhain – HOLWCH. Gallwch gysylltu â'r Adran Iechyd yr Amgylchedd berthnasol i gael rhagor o fanylion am reoli Iechyd a Diogelwch a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.

## TABL A - COFNODION Y DYLAI DEILIAD Y DRWYDDED EU CADW.

**1.** Y Drwydded.

**2.** Mae'r manylion canlynol mewn perthynas â phob diwrnod y mae'r plentyn yn bresennol yn y man perfformio neu'r man ymarfer—

a) y dyddiad
b) amser cyrraedd y man perfformio neu'r man ymarfer
c) amser gadael y man perfformio neu'r man ymarfer
d) amseroedd pob cyfnod y bydd y plentyn yn cymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer;
e) amser pob egwyl gorffwys
f) amser pob egwyl pryd bwyd
g) amseroedd unrhyw waith nos a awdurdodwyd gan yr awdurdod trwyddedu

**3.** Pan wneir trefniadau ar gyfer addysgu'r plentyn gan athro preifat, dyddiad a hyd pob gwers a phwnc a addysgir.

**4.** Manylion anafiadau a salwch y plentyn (os oes rhai) yn y man perfformio neu'r man ymarfer, gan gynnwys y dyddiadau y digwyddodd anafiadau o'r fath a nodi a ataliodd yr anafiadau neu afiechydon y plentyn rhag bod yn bresennol yn y man perfformio neu'r man ymarfer.

**5.** Mae dyddiadau seibiannau'r perfformiadau yn ofynnol dan reoliad 29(1).

**6.** Swm yr holl arian a enillodd y plentyn drwy gymryd rhan yn y perfformiad ac enwau, cyfeiriadau a disgrifiad y personau y talwyd y symiau hyn iddo.

**7.** Pan fo'r Awdurdod Trwyddedu yn rhoi trwydded ar amod bod yn rhaid ymdrin â symiau y mae'r plentyn yn eu hennill mewn modd a gymeradwyodd, maint y symiau a'r modd yr ymdriniwyd â nhw.

## **TABL B - TABL** PERFFORMIADAU A GWEITHGAREDDAU

## Plant mewn adloniant - cyfyngiadau mewn perthynas â phob perfformiad

Sylwch: Dylai awdurdodau lleol nodi Rheoliad 5 sy'n caniatáu i'r awdurdod trwyddedu gyfyngu ymhellach ar yr oriau a ganiateir, seibiannau ac ati, a gosod amodau ychwanegol ar y drwydded pe byddai hyn er lles pennaf y plentyn unigol.

| **Pwnc** | **0 i 4 oed** | **5 i 8 oed** | **9 oed a hŷn** |
|---|---|---|---|
| Uchafswm nifer yr oriau yn y man perfformio neu ymarfer (Rheoliad 24) | 5 awr | 8 awr | 9.5 awr |
| Yr amseroedd cynharaf a'r hwyraf y caiff fod yn y man perfformio neu ymarfer (Rheoliad 23) | 7 am tan 10 pm | 7 am tan 11 pm | 7 am tan 11 pm |
| Cyfnod hwyaf o berfformio neu ymarfer parhaus (Rheoliad 24) | 30 munud | 2.5 awr | 2.5 awr |
| Uchafswm cyfanswm nifer yr oriau o berfformio neu ymarfer (Rheoliad 24) | 2 awr | 3 awr | 5 awr |
| Addysg (Rheoliad 15) | Dd/B | 3 awr y dydd (uchafswm o 5 awr y dydd). 15 awr yr wythnos, a addysgir ar ddiwrnodau ysgol yn unig. Lleiafswm o 6 awr mewn wythnos os yn cronni dros gyfnod o 4 wythnos neu lai. | 3 awr y dydd (uchafswm o 5 awr y dydd). 15 awr yr wythnos, a addysgir ar ddiwrnodau ysgol yn unig. Lleiafswm o 6 awr mewn wythnos os yn cronni dros gyfnod o 4 wythnos neu lai. |
| Isafswm egwyliau ar gyfer prydau bwyd a gorffwys (Rheoliad 25) | Rhaid i unrhyw seibiant fod am o leiaf 15 munud.<br><br>Os yw yn y man perfformio neu ymarfer am fwy na 4 awr, rhaid i'r seibiannau gynnwys o leiaf un egwyl pryd bwyd 45 munud. | Os yw yn y man perfformio neu ymarfer am fwy na 4 awr ond llai nag 8 awr, rhaid cael o leiaf un egwyl pryd bwyd 45 munud ac un egwyl 15 munud.<br><br>Os yw yn y man perfformio neu ymarfer am 8 awr neu fwy, rhaid cael yr egwyliau a nodir uchod ac egwyl 15 munud ychwanegol. | Os yw yn y man perfformio neu ymarfer am fwy na 4 awr ond llai nag 8 awr, rhaid cael o leiaf un egwyl pryd bwyd 45 munud ac un egwyl 15 munud.<br><br>Os yw yn y man perfformio neu ymarfer am 8 awr neu fwy, rhaid cael yr egwyliau a nodir uchod ac egwyl 15 munud ychwanegol. |
| Isafswm egwyl rhwng perfformiadau (Rheoliad 25) | 1 awr 30 munud | 1 awr 30 munud | 1 awr 30 munud |
| Uchafswm y diwrnodau olynol y gall gymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer (Rheoliad 28) | 6 diwrnod | 6 diwrnod | 6 diwrnod |

## CYRRAEDD Y LLEOLIAD

- Cyrhaeddwch cyn y plant, yn enwedig os nad ydych yn adnabod y lleoliad.  Bydd hyn yn rhoi amser i chi edrych o gwmpas a chwrdd â phobl eraill sy'n rhan o'r digwyddiad.
- Cyflwynwch eich hun i Ddeiliad y Drwydded neu ei ddirprwy ac unrhyw berson perthnasol arall (e.e. rheolwr llwyfan / llawr, gwisgwyr ac ati).
- Gwiriwch yr holl ardaloedd y bydd y plant yn mynd iddynt am unrhyw beryglon posibl.
- Chwiliwch am leoliad yr allanfeydd tân a sut mae eu cyrraedd.
- Dysgwch sut mae'r larwm tân yn swnio a threfnwch ddril tân sy'n cynnwys y plant gyda'r larwm yn seinio.
- Gwiriwch y cyfleusterau cymorth cyntaf a holwch a oes Swyddog Cymorth Cyntaf cymwys ar y safle.
- Gwiriwch fod ystafelloedd gwisgo, toiledau, ystafell ysgol, ystafell orffwys, trefniadau prydau bwyd ac unrhyw gyfleusterau eraill yn addas.
- Wrth wirio'r ystafelloedd gwisgo, cofiwch fod rhaid i blant 5 oed neu hŷn wisgo gyda phlant eraill o'r un rhyw yn unig.
- Cysylltwch ag unrhyw hebryngwyr eraill a gyflogir, a gweithiwch fel tîm.
- Gofynnwch am restr o enwau'r plant y byddwch yn gofalu amdanynt. Os oes mwy na 12 o blant, rhaid i bob hebryngwr fod yn siŵr pwy sy'n gofalu am ba blentyn.
- Gwiriwch drwydded perfformiad pob plentyn a nodwch unrhyw amodau sydd arni. Rhaid i gopi Deiliad y Drwydded fod ar gael yn y man lle mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal.
- Sicrhewch fod rhestr o fanylion cyswllt cartref a brys y plant y gallwch ei chael ar unrhyw adeg rhag ofn y bydd angen i chi gysylltu â'r rhiant / gwarcheidwad.
- Gofynnwch i Ddeiliad y Drwydded a oes gan unrhyw blentyn broblemau neu ofynion meddygol. Mae'r wybodaeth hon yn gwbl gyfrinachol ond, fel hebryngwr, mae angen i chi ei gwybod.  Os aiff plentyn yn sâl efallai y bydd rhywbeth yn y nodiadau a fydd yn rhoi rhyw syniad i chi beth yw'r broblem.  Os eir â'r plentyn i'r ysbyty neu os yw meddyg yn ei weld, gall y ffaith bod plentyn yn cymryd meddyginiaeth effeithio ar y driniaeth. Efallai y bydd angen i chi atgoffa plentyn i gymryd ei feddyginiaeth ar adeg benodol.
- Os ydych yn anhapus ag unrhyw un o'r cyfleusterau neu'r trefniadau, dylech leisio eich pryderon wrth Ddeiliad y Drwydded a negodi amodau gwell. Os nad yw'r trafodaethau hyn yn llwyddiannus, rhaid i chi ystyried a ydych chi'n mynd i ganiatáu i'r plant gymryd rhan yn y digwyddiad ai peidio. Dan yr amgylchiadau hyn rhaid i chi hysbysu'r Awdurdod

Trwyddedu priodol cyn gynted â phosibl gyda manylion y broblem(au) a'r camau gweithredu a gymeroch chi.

## RHESTR WIRIO - CYRRAEDD Y LLEOLIAD

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi lungopïo'r dudalen hon i'w defnyddio ym mhob swydd rydych chi'n ei mynychu.

| Ymgyfarwyddwch â chynllun y lleoliad. | Ticiwch ar ôl cwblhau. |
|---|---|
| Nodwch yr holl beryglon. | |
| Dewch o hyd i bob allanfa dân. | |
| Gofynnwch am gael prawf seinio'r larwm tân. | |
| Trefnwch ddril tân (gyda'r larwm) ar gyfer y plant. | |
| Dewch o hyd i'r cyfleusterau cymorth cyntaf. | |
| Archwiliwch yr ystafelloedd gwisgo (angen un ar wahân ar gyfer plant 5 oed a throsodd). | |
| Dewch o hyd i'r toiledau a'u harchwilio | |
| Dewch o hyd i'r ystafelloedd gorffwys a'u harchwilio. | |
| Dewch o hyd i'r ystafell ysgol a'i harchwilio (os yw'n berthnasol). | |
| Holwch beth yw'r trefniadau prydau bwyd. | |
| Gwiriwch gyfanswm nifer y plant. | |
| Gwiriwch gyfanswm nifer yr hebryngwyr. | |
| Gofynnwch am restr o enwau'r plant. | |
| Gwiriwch drwydded perfformiad pob plentyn. | |
| Sicrhewch fod gennych gysylltiadau cartref brys ar gyfer pob plentyn. | |
| Lle bo'n berthnasol, sicrhewch fod gennych fanylion problemau meddygol a / neu feddyginiaeth pob plentyn. | |
| Sicrhewch fod pob plentyn yn cael ei gofrestru i mewn ac allan gan oedolyn awdurdodedig. | |

Gwiriwyd gan : ________________________________

Gwiriwyd ar : ________________________________